**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/03891/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

14 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet,

Rwyf yn falch o allu dweud wrthych fod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 wedi eu diwygio (gydag effaith o 22 Mehefin) i ganiatáu i addoldai agor at ddibenion gweinyddu priodasau a ffurfio partneriaeth sifil ac i gyfranogwyr a gwahoddedigion deithio, ymgynnull a mynd i mewn i adeilad at y diben hwnnw. Mae hyn yn golygu ei bod bellach yn bosibl cynnal seremonïau mewn addoldai a Swyddfeydd Cofrestru.

Nid yw lleoliadau eraill sy'n cynnal priodasau fel arfer yn gallu cynnal seremonïau gan fod gofyn iddynt barhau i fod ar gau o dan y rheoliadau presennol. Mae'r newid hwn i'r Rheoliadau yn adlewyrchu'r pwyntiau yr ydych yn eu codi ynghylch pwysigrwydd gallu priodi neu ffurfio partneriaeth sifil am resymau cyfreithiol ac ysbrydol. Mae'n golygu bod pawb sy'n dymuno yn gallu priodi neu ffurfio partneriaeth sifil mewn lleoliad crefyddol neu leoliad nad hyw'n grefyddol.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Chofrestryddion a'r gymuned ffydd i ddatblygu canllawiau y byddwn yn eu cyhoeddi cyn bo hir. Bydd y canllawiau hyn yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng y seremoni ffurfiol sy'n sefydlu sail gyfreithiol y briodas neu'r bartneriaeth sifil a'r cynulliad cymdeithasol y mae llawer yn dymuno ei fwynhau fel rhan o'u priodas. Nid yw ystyriaethau iechyd y cyhoedd yn caniatáu inni fynd ymhellach a chaniatáu i'r cynulliad cymdeithasol ddigwydd ar hyn o bryd, felly bydd yr oddefeb yn caniatáu digwyddiadau cyfyngedig gyda mesurau pellter wrth eu craidd.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.